
# Cwmni

Rhifyn 177 Pris 80c Tachwedd 2015







## Eisteddfod y Cymoedd 2015





Y PWYLLGOR A'R SWYDDOGION

**Cadeirydd:** Robert Dutt **Ymgynghorydd:** Ann Lewis

**Trysorydd:** Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

**Golygydd:** Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

**Ysgrifennydd:** Marian Fairclough faircloughme@aol.com 02920 885151

**Ysgrifennydd Cofnodion:** Ann Lewis **Golygydd Lluniau:** Mary Jones

**Cynorthwy-ydd:** Jan Penney **Digwyddiadur:** Lowri Jones Lowri@mentercaerffili.org

**Ieuenctid:** Morgan Roberts Swyddog Prosiect Llais, Menter Caerffili

**Pwyllgor:** Eleri Betts, Eirlys Thomas, Dafydd Islwyn, Tamsin Graves a Gareth W.Willliams

**Croesawir erthyglau gan unrhyw un ond iddynt gyrraedd desg y Golygydd cyn 20fed diwrnod y mis cyn cyhoeddi.**

## Sgwad Sgwennu



Rydym yn trefnu Sgwadiau Sgwennu Iaith Gymraeg y Cyngor ac fe ddaeth 22 o blant i sesiwn yr Hydref yn Llyfrgell Caerffili o dan arweiniad y nofelydd Gwenan Evans. Ysgrifennodd y criw straeon byrion mewn un frawddeg ar y thema 'Calan Gaeaf 'ac 'Arswyd'. Dyma frawddeg Bethan o'r Sgwad - 'Edrychodd Elliott i mewn drwy ffenestr y Capel hen a gwag, a sylwodd fod rhywbeth yn syllu yn ôl o ochor arall y ffenestr'.



## Teithiau Cerdded

Mae'r clwb cerdded yn cwrdd bob dydd Mercher rhwng 10:00 a 2:00 ac wedi bod o amgylch y Sir am dro dwy awr ers bron deufis bellach. Mae criw da yn mynychu ac mae lleoliad newydd bob wythnos. Cysylltwch â morganroberts@mentercaerffili.cymru am ragor o fanylion.

mentercaerffili.org

## Diwrnod Shwmae Su'mae




Daeth criw da i gwrdd yn Wetherspoons Coed-Duon i ddweud Shwmae neu Su'mae ddydd Iau Hydref 15fed.   Hefyd bu staff Menter Caerffili o amgylch clybiau a gweithgareddau hefo sticeri yn sgwrsio hefo plant ac oedolion ac yn dweud Shwmae!




## Cwrdd â'n Staff

Croesawn Rhiannon Tucker yn Swyddog Datblygu Iaith Blynyddoedd Cynnar.

Mae ein swyddog Datblygu Iaith Blynyddoedd Cynnar yn brysur yn mynd o amgylch meithrinfeydd a safleoedd gwarchod plant i godi safonau a defnydd yr Iaith. Yn ddiweddar bu hi'n cynnal sesiynau canu i fabis er mwyn datblygu eu synhwyrau a'u defnydd iaith.

## Iwcalili

Ar nosweithiau Iau mae Dafydd Roberts yn cynnal sesiynau dysgu'r iwcalili yng Nghapel Siloh, Ystrad Mynach. Fe wnaeth y criw ddysgu dwy gân y diwrnod cyntaf ac roedd ystumiau canolbwyntio gwych ar wynebau pawb! Os oes gennych chi ddiddordeb mynychu, mae gennym iwcalilis ar gael ar fenthyg. Cysylltwch â bethanjones@mentercaerffili.cymru am fanylion pellach.

## Gweithgareddau a fu: Taith EGX



Bu ein swyddogion maes ar daith i'r Euro Gamer Expo yn Birmingham ddiwedd Medi hefo criw o ddisgyblion blwyddyn 10 Cwm Rhymni sydd yn mynychu clwb gemau fideo o dan arweiniad Morgan Roberts.     Mae'n ddigwyddiad sydd yn cyflwyno gemau fideo newydd a hefyd yn rhoi'r cyfle i chwarae hen gemau fideo fel Sonic ar Sega Mega Drive! Llwyddodd y bobl ifanc i gael anrhegion am ddim gan yr amryw gwmnïau  a  phosteri a diodydd ond y gorau oedd crys-t!

## Trefnu Blodau

Mae'r sesiynau trefnu blodau wedi dechrau eto ar gyfer tymor yr hydref, hefo 10 yn mynychu'r sesiwn gyntaf. Dechreuodd y tiwtor Ann Mears hefo trefniant Hydrefol, ac ym mis Tachwedd bydd y grŵp yn creu trefniant Gaeafol.



## Gweithgareddau i ddod

Mae llawer o bethau'n digwydd yn y fenter hyd at y Nadolig. Edrychwch yn y Digwyddiadur ar dudalennau 17, 18 a'r 19 am fanylion pellach.

## Newyddion Tonyfelin



Cawsom ddwy oedfa nodedig yn Nhonyfelin yn ystod mis Medi. Ar Fedi 13 roeddem yn ffarwelio â thair o'n haelodau ifanc sy'n dechrau ar yrfa golegol, sef Elan, Eluned a Nia. Lluniodd Eirian Dafydd oedfa hyfryd ar thema 'Dechrau Newydd' ac fe gawsom ein hatgoffa bod aelodau eraill o'r gynulleidfa yn cael dechrau newydd hefyd: swydd newydd, ar fin neu newydd briodi, newydd gael wyres newydd……..

Yna ar Fedi 20 buom yn dathlu'r ffaith bod y Parchedig Milton Jenkins wedi bod yn weinidog yn Nhonyfelin ers 20 mlynedd bellach. Yn dilyn oedfa arbennig cyflwynwyd albwm o gyfarchion a lluniau aelodau a chyfeillion Tonyfelin iddo ef a Mrs Jenkins. Gobeithiwn y bydd gyda ni eto am sawl blwyddyn i ddod!



## Bant i Ganada

Roedd Judith ac Wyn Griffiths yn hedfan i Nova Scotia  ddiwrnod olaf mis Medi, yr union ddiwrnod roedd eu merch Sarah yn disgwyl rhoi genedigaeth i ŵyr cyntaf y ddau. Mae'r rhieni-cu balch yn disgwyl bod yno mewn da bryd i gyfarfod â Max yn fuan wedi i hwnnw weld golau dydd am y tro cyntaf.



Bydd nifer o'n darllenwyr yn cofio Sarah yn ddisgybl yn Ysgol Gymraeg Gilfach Fargod ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Mae hi a'i gŵr bellach wedi hen ymgartrefu yng Nghanada ac erbyn hyn yn ddinasyddion cyflawn.

Peiriannydd yw gŵr Sarah a hynny mewn  gwlad lle mae'r tymheredd yn amrywio o -30°C i +30°C!   Oherwydd y gwahaniaeth mewn tymheredd rhwng y môr a'r awyr gwelir niwloedd trwchus yn codi yn lled aml.

Nyrs yw Sarah wrth ei galwedigaeth ac mae'n sicr o ddiddordeb i'r sawl sy'n gyfarwydd â'r teulu fod Mari, chwaer Sarah, yn byw yng Nghaerffili lle mae hi'n Gyfarwyddwraig Marchnata.

Treuliodd Judith ddau gyfnod yn athrawes yn Ysgol Gilfach. Bu yno rhwng 1975 ac 1977 cyn gadael i fagu'r plant. Yna, â'r ddwy ferch yn ddisgyblion yn yr ysgol dychwelodd yn 1986 lle bu tan ddiwedd tymor yr haf eleni. Yn ystod ei hamser yn yr ysgol bu'n dysgu amryw oedrannau o'r Dosbarth Meithrin hyd at ganol yr Adran Iau. Hi, hefyd, oedd cydlynydd Mathemateg yr ysgol ac fe'i gwelwyd yn gyson yn Eisteddfodau'r Urdd.

Dymunwn ymddeoliad hir a hapus iddi hi a Wyn.



# Bethan ym Mhatagonia

Ym mis Awst eleni bues i'n ffodus iawn i ymuno â thaith arbennig i Batagonia fel un o'r staff. Hon yw blwyddyn dathlu 150 mlynedd ers i'r fintai gyntaf ymfudo yno. Y prosiect oedd taith sioe 'Mimosa', drama wedi'i hysgrifennu gan Tim Baker, Theatr Clwyd a'r gerddoriaeth gan Dyfan Jones. Prosiect ar y cyd rhwng Urdd Gobaith Cymru, y Mentrau Iaith a Theatr Clwyd oedd hon. Dechreuodd y ddrama hefo pedwar actor proffesiynol, cyn i un deg chwech person ifanc o Gymru a dau o Batagonia ymuno â'r cast ar ddiwedd mis Gorffennaf. Bu pythefnos o ymarferion dwys, ac yna perfformiadau yng Nghymru ac ym Mhatagonia. Dechreuais i ymwneud â'r prosiect pan ymunodd criw o bobl ifanc â'r cast ddiwedd Gorffennaf, a chefais i fis anhygoel yn eu cwmni.

Dechreuodd y daith i Batagonia brynhawn Awst y 9fed, taith hir o ddeuddydd mewn bysys ac awyrennau, hefo arhosiad yn Buenos Aires, cyn cyrraedd Trelew, Patagonia o'r diwedd. Cyrhaeddon ni mewn llawer mwy o foethusrwydd na'r fintai gyntaf, ac i ardal sydd bellach yn tyfu. Gan ddyfynnu o sgript Tim Baker, doedd dim byd ond 'llwyni draenog a llwch ymhobman' 150 mlynedd yn ôl.

Fe wnaeth y criw berfformio chwe gwaith ym Mhatagonia, a chawson nhw *'standing ovation'* ar ddiwedd pob sioe. Y perfformiad cyntaf oedd yn Teatro Verdi, Trelew i ddisgyblion ysgolion y dref, nifer ohonynt yn siarad dim ond Sbaeneg. Serch hyn, mi lwyddodd y cast i gyfleu emosiynau'r ddrama ac fe wnaeth y gynulleidfa werthfawrogi eu canu. Y noson honno roedd perfformiad i'r gymuned ac roedd teimlad arbennig wrth adrodd hanes taith Y Mimosa i Gymry Patagonia, rhai ohonynt yn ddisgynyddion y fintai gyntaf.

Hanes pobl y fintai gyntaf yw 'Mimosa', a'u rhesymau dros fentro i ochor arall y byd i ddechrau 'Cymru Newydd'. Mae'r sgript yn esbonio anawsterau'r cyfnod yng Nghymru, y diweithdra, gormes gan Loegr a'r landlordiaid. Clywn am syniad Michael D. Jones i sefydlu Cymru Gymraeg ym Mhatagonia, clywn am y teuluoedd a fentrodd, clywn am y babanod fu farw a'r babanod a gafodd eu geni ar gwch Y Mimosa, hen gliper te.



Ond hanes ein taith ni oedd hon, criw o bobl ifanc Cymru yn mynd â drama am hanes Patagonia draw i'r gymuned ym Mhatagonia! Roedd hi'n ddefnyddiol iawn cael Michael a Ryan, y ddau berson ifanc o Batagonia, yn rhan o'r criw, wrth i ni i gyd geisio dod yn gyfarwydd â'r Sbaeneg. Fe wnaeth pawb wella erbyn diwedd y daith ac fe wnes i fentro ambell dro i archebu bwyd hefo dim help, er nid bob tro bues i'n llwyddiannus yn archebu rhywbeth blasus!

*Cawn ddarllen mwy am anturiaethau Bethan ym Mhatagonia ym mis Rhagfyr. Gol*

## Clive Williams, Aberbargod

*Gwnaeth Clive gyfraniad aruthrol i ddatblygiad yr iaith ac addysg Gymraeg yng Nghwm Rhymni tan i salwch gwtogi ar ei arweiniad cadarn a'i ymdrechion diflino. Yma mae'n rhannu rhai o'i atgofion o ddyddiau difyr, arloesol.*



**Cyfarfodydd Mewn Tafarn**

Rhywbryd yng nghanol y 1970au dechreuodd grŵp o bobl o Gwm Rhymni uchaf a Chwm Sirhywi uchaf gwrdd bob nos Wener yn y Church Inn (Tafarn yr Eglwys) ym Medwellte ac yn ddiweddarach yn nhafarn y Neuadd Wen yn Aberbargod. Roedd y mwyafrif yn ddysgwyr o bob lefel, er bod llawer yn eu hystyried eu hunain yn siaradwyr rhugl, ynghyd â nifer o siaradwyr naturiol. Un ymwelydd cyson â'r Neuadd Wen, pan oedd hi'n byw yn Y Coed Duon, oedd Helen Jones - sydd bellach yn fwy adnabyddus fel Helen Mary Jones. O'r cyfarfodydd hyn ymddangosodd y syniad o ffurfio Cymdeithas Gymraeg yn yr ardal.

**Cymdeithas Gymraeg Bargod a'r Cylch**

Yn gynnar yn 1980 ffurfiwyd Cymdeithas Gymraeg Bargod a'r Cylch, gyda Dafydd Islwyn yn Llywydd, Andrew Richards yn Gadeirydd, Byron Shide yn Drysorydd, a finne yn Ysgrifennydd. Y digwyddiad cyntaf a drefnwyd gan y Gymdeithas oedd Cwis Banc Lloyds gyda chefnogaeth John Thomas, Rheolwr Banc Lloyds, Bargod.

Ar hyd y blynyddoedd bu gennym nosweithiau yng nghwmni: Heather Jones, Dafydd Iwan, Plethyn, y Brodyr Gregory, Tecwyn Ifan, Delwyn Siôn, Mabsant, Wyn Lodwig a'i Fand. Ac yn fwy aml na pheidio roedden ni'n canu gyda'n gilydd yn enwedig gyda Gwyn Morgan a'i gitâr.

Cawsom: Ddawnsfeydd Twmpath gyda Gwilym Roberts â'i gasgliad o recordiau; ymweliadau gan BBC Radio Cymru i wneud rhaglenni fel 'Hela Sgwarnog' a 'Dros Ben Llestri'. Daeth cwmni teledu o Iwgoslafia i wneud rhaglen am ieithoedd lleiafrifol yn Ewrop oedd yn cynnwys Dafydd Iwan yn canu. Cawsom ymweliadau gan Gwmni Cyfri Tri a Theatr Bara Caws; Ciniawau Dydd Gŵyl Ddewi gyda gwesteion arbennig fel : Merêd - "Dwi ddim wedi dod i siarad â chi, ond i ganu i chi!" ac Yvonne Owen o Batagonia gyda'i sioe sleidiau o'r Wladfa.


**Mudiad Ysgolion Meithrin**

Yn ystod haf 1982 cefais ymweliad gan Margaret Francis, Swyddog Datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin Morgannwg Ganol. Roedd "person" wedi rhoi fy enw iddi am ei fod yn meddwl efallai byddwn yn gallu ei helpu i sefydlu Cylch Meithrin yn Aberbargod. Ar ôl ychydig o berswâd cytunais helpu. Cysylltais â Kath Szerard ein Cynghorydd Sirol Plaid Cymru a Richard Grey, Rheithor eglwys blwyf Sant Sannan, a chytunodd y ddau i helpu. Hefyd, roedd gyda ni grŵp o rieni brwd yn fwy na pharod i helpu. Cefais y fraint o gael fy newis yn Ysgrifennydd y Cylch Meithrin. Mae Cylch Meithrin Aberbargod yn dal i fodoli a bellach mae ysgol Gymraeg yn y pentref - Ysgol Bro Sannan.

**Dosbarthiadau Nos**

Yn 1980/81 cwblheais gwrs hyfforddiant 'Dysgu Cymraeg i Oedolion' a drefnwyd gan Adran Efrydiau Allanol, Coleg y Brifysgol Caerdydd. O 1982/83 i 1988/89 roeddwn yn diwtor i ddosbarthiadau nos Cymraeg ym Margod. Ac yn ddiweddarach o 1990/91 i 1995/96 ym Margod ac yn Aberbargod.

Yn ystod Hydref 1982 datganolwyd llawer o waith Pwyllgor Sir Mudiad Ysgolion Meithrin Morgannwg Ganol i'r rhanbarthau, sef: Ogwr, Taf Elai, Rhondda, Cwm Cynon, Merthyr a Chwm Rhymni. Rhwng popeth, roedd 64 o Gylchoedd Meithrin yn y sir ar y pryd. Swyddogion Pwyllgor Cwm Rhymni oedd newydd ei ffurfio oedd: Barbara Bullock – Ysgrifennydd, Stan Evans – Trysorydd, Gill Jones - Is-gadeirydd a finne'n Gadeirydd. A'n swyddog datblygu newydd ar gyfer y rhanbarth oedd Rita Jones.




Yng Ngwanwyn 1987, diolch i'r cynnig a gyflwynwyd gan Cennard Davies, cefais fy mhenodi yn Is-gadeirydd Pwyllgor Morgannwg Ganol - i wasanaethu yn y swyddogaeth honno am ddwy flynedd cyn cymryd drosodd fel Cadeirydd. Ond ymddiswyddodd y Cadeirydd o fewn llai na mis a ffeindiais i fy hunan yn y Gadair!

Yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd cododd nifer Cylchoedd Meithrin y Sir i dros 100 - a phrynom ni garafán! Pwrpas y garafán oedd hysbysebu gwaith y Mudiad, a chafodd ei haddurno'n hardd ar y tu allan gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Cwm Rhymni o dan arweiniad Mike West. Un tro, digwyddodd Cyfarwyddwr Mudiad Ysgolion Meithrin ar y pryd, Bryan Jones, fynd â'r garafán i fyny i'r gogledd ar fenthyg pan stopiodd mewn tafarn am ginio. Roedd y bobl y tu fewn i'r dafarn yn meddwl bod hipis wedi cyrraedd!

Mwynheais fy holl amser yn gweithio gyda Mudiad Ysgolion Meithrin a chwmni'r holl bobl ddiddorol hyfryd wnes i gyfarfod - yn enwedig adeg y Nadolig pan es o un grŵp i'r llall fel Siôn Corn!

## Noson Gymraeg yng Nghanolfan y Glowyr


Nos Fawrth, Hydref 13, gwahoddwyd nifer o Gymry Cymraeg Caerffili a'r cylch i hen Ysbyty'r Glowyr sydd bellach wedi agor ychydig o ystafelloedd y llawr gwaelod ar eu newydd wedd fel canolfan gymunedol. Rydym yn awyddus iawn i gael gweithgareddau Cymraeg yn y Ganolfan ac roeddem felly yn awyddus i ddangos yr ystafelloedd sydd ar gael fel rhagflas i'r gymuned Gymraeg a sôn hefyd am y pethau gwych sydd i ddod, fel ystafell dechnoleg gwybodaeth, ystafell gerdd ac ystafell enfawr y gellir ei llogi ar gyfer dathliadau o bob math.



Yn ystod y noson cyflwynodd Merched y Wawr, Rhanbarth y De-ddwyrain, lun arbennig i Ganolfan y Glowyr, sef llun gan Mary Jones sy'n dangos rhai o chwedlau Cwm Rhymni. Cafodd y llun ei gomisiynu ar gyfer Eisteddfod yr Urdd Caerffili 2015 ac fe'i arddangoswyd ar y Maes ond rydym wrth ein bodd y bydd ei gartref parhaol yng Nghanolfan y Glowyr fel arwydd o Gymreictod y sefydliad ac o gefnogaeth Merched y Wawr i ni.

Cafwyd adloniant cerddorol bendigedig gan y delynores Anwen Thomas a Chôr Cwm Ni. Noson i'w chofio a diolch i bawb am eu cefnogaeth barod.

# Dr William Price – Ein Harwr <u>NI</u>




Darllenwn yn y papurau am fwy a mwy o awdurdodau yn torri nôl oherwydd polisïau'r llywodraeth o gwtogi ar wariant cyhoeddus. Un ardal sydd wedi dioddef oherwydd hyn yw ein llyfrgelloedd.

Braf felly yw bod trigolion tref Caerffili yn gallu ymfalchïo yn eu llyfrgell newydd sbon. Codwyd llyfrgell yn y dref ddechrau pum degau'r ganrif o'r blaen, ond llyfrgell oedd hon i ddarparu ar gyfer tref farchnad fach gysglyd. Llyfrgell oedd hon na allai rhagweld y tyfiant aruthrol roedd i ddigwydd yn y cyffiniau yn ystod y ddau ddegawd canlynol, ac wedi hynny.

Ond nid yn unig mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod â'r weledigaeth i gadw llyfrgelloedd ar agor, maent hefyd wedi llwyddo i ail-ddechrau rhaglen o sgyrsiau a darlithoedd. Roedd hen lyfrgell Caerffili wedi mynd llawer yn rhy fach, ers rhai blynyddoedd, i allu cynnal unrhyw weithgaredd ychwanegol yno.

Roedd croeso mawr, felly, i'r cyhoeddiad y byddai Dean Powell o Lantrisant yn dod i siarad am ei lyfr am y Dr William Price. Ac yn ei anerchiad, ddiwedd mis Medi, roedd Dean am bwysleisio dau beth. Er bod pobl yn dueddol o gysylltu'r Dr Price â Llantrisant, ym mhen isaf Cwm Rhymni oedd ei wreiddiau. A, hefyd, bod llawer iawn mwy i hanes yr arloeswr hwn na'r ffaith iddo amlosgi corff ei fab.

Roedd cynulleidfa'r 30ain o Fedi yn weddol hysbys mai yn yr ardal a adwaenir fel Waterloo, ger pentref Rhydri, y ganwyd y Doctor. Dysgwyd bod ei dad yn wallgof ac i'r William ifanc uniaith Gymraeg fethu cael mynd i ysgol tan ei fod yn ddeg mlwydd oed. Ond gwelwyd bod ganddo lawer iawn o allu ac fe hyrwyddwyd ei gynnydd addysgol wedi hynny.

Yn briodol iawn roedd Dean hefyd yn gallu dweud wrth ei gynulleidfa i rai o'r teulu Price fod yn berchen ar dafarn y Boar's Head. Mae'r dafarn sydd bellach yn Glwb Bwrdeistrefol (*Municipal Club)* lai na chanllath o'r man y traddodwyd y sgwrs. Mae'n debyg i'r teulu fod yn berchen ar lawer man arall yn y dre hefyd.

Gwyddai llawer am edrychiad ecsentrig y Doctor Price. Ni wisgai sanau, beth bynnag y tywydd, am ei fod yn teimlo y dylai'r traed allu anadlu. Ac mae lluniau ohono yn ein hatgoffa o'i wisg liwgar a'r ffaith ei fod yn gwisgo croen llwynog ar ei ben.

Wedi cymhwyso i fod yn feddyg, i ardal Trefforest yr aeth i fyw, a hyn am fod yr ardal honno yn un ddiwydiannol. Ond fe'i denwyd at ffatri gwneud cadwyni, Brown Lennox yn agosach i dref Pontypridd. (Y cwmni hwn, gyda llaw, a wnaeth gadwyni ar gyfer y "Titanic") Yno sefydlodd Wasanaeth Iechyd arloesol drwy godi ceiniog yr wythnos ar y gweithwyr. Drwy dalu'r cyfraniad hwn byddai'r gweithwyr a'u teuluoedd yn elwa o driniaeth feddygol yn rhad ac am ddim pan fyddai salwch yn eu taro.

Cafwyd gwybod bod William Price yn dderwydd a chanddo ddaliadau crefyddol anarferol. Roedd yn sicr yn cydymdeimlo ag achos y Siartwyr ond roedd hi'n beth syndod nad ymunodd â'r orymdaith i Gasnewydd yn 1839. Y rheswm roddodd Dean Powell am hyn oedd i John Frost ddod draw i Bontypridd i weld Price ond methodd a'i ddarbwyllo i ymuno â'r ymgyrch. Roedd hyn am i Frost fethu â datgelu'i gynlluniau yn llawn. Barn Doctor Price oedd iddo fethu a gwneud hynny am fod y paratoadau yn anghyflawn. Ac mae lle i gredu hyn o ystyried y gyflafan a fu y tu allan i westy'r Westgate y mis Tachwedd hwnnw.

Ond er mor boblogaidd y daeth y Doctor, achosodd ddigofaint mawr pan benderfynodd losgi corff marw ei fab, mab a enwodd yn Iesu Grist. I ddechrau, ofnai pobl Llantrisant ei fod wedi gwneud aberth byw o'i fab. Ond pan ddygwyd ef o flaen ei well, ac yntau'n gyfreithiwr heb ei ail, llwyddodd i berswadio'r llys nad oedd wedi cyflawni unrhyw drosedd.

Wedi ei farwolaeth ei hun llosgwyd ei gorff yntau, yn unol â'i ddymuniad. Dywedir i filoedd droi allan i weld y digwyddiad. Ac fel y gwyddys, daeth amlosgi'n ffordd gymdeithasol dderbyniol o wared ar weddillion daearol wedi hynny.

Teyrnged addas i'r gŵr mawr hwn oedd i'r awdurdodau agor amlosgfa gyntaf Cymru yng Nglyn Taf heb fod nepell o'r lle y bu William Price yn byw pan wnaeth cymaint o'i weithiau da.

Gobeithio y bydd yr ychydig eiriau hyn yn rhagflas a fydd yn fodd i arwain ein darllenwyr at y llyfr. Cafodd y gyfrol lawer iawn o gyhoeddusrwydd er bod y fersiwn clawr caled braidd yn ddrud. Ond nawr mae'r llyfr ar gael o fewn cloriau meddal ac yn fwy fforddiadwy yn £9.99.

## Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Yng nghyfarfod cyntaf ein tymor cawsom gwmni Owain Morris, sy'n aelod o staff Cwmni Tidal Lagoon Power; testun ei sgwrs oedd Morlyn Llanw Bae Abertawe. Cyn ymuno gyda'r cwmni yn 2013 bu Owain yn gweithio yn Ffrainc am gyfnod byr wedi iddo raddio mewn daearyddiaeth yn Aberystwyth. Cyn hynny bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Bryntawe yn Abertawe ac Ysgol Gyfun Gymraeg Tre-gŵyr.


Dyma un o'r chwech menter ar draws Cymru a Lloegr sy ar y gweill gan y cwmni gyda golwg ar ddiwallu anghenion egni y dyfodol. Yn eironig, a ninnau'n cael golwg ar ddull gwyrdd o gyrraedd y nod, ar yr un diwrnod cyhoeddwyd y newyddion bod llywodraeth Llundain yn bwriadu mynd i gytundeb gyda chwmni yn Ffrainc ac yn Tseina i godi gorsaf bŵer niwclear ar yr Hafren.


Ar hyn o bryd mae'r cynlluniau yn Abertawe ar gyfnod cyffrous a phryderus o ran derbyn caniatâd sawl adran yn y llywodraeth i fwrw ymlaen; eisoes cafwyd cytundeb rhannol. Os daw'r golau gwyrdd yn y tri mis nesaf, gellir dechrau'r gwaith yn y gobaith o'i orffen ymhen tair i bedair blynedd.

Beth bynnag yw barn dyn am y mentrau anferthol hyn, rhaid cydnabod trylwyredd y paratoi a'r breuddwydio. Trawsnewidir Bae Abertawe, gyferbyn â'r brifysgol, pan godir argae mawr iawn ar ffurf cylch i ffurfio morlyn fydd yn gronfa derbyn a gollwng dŵr y môr yn ôl rhythm trai a llanw lleol. Bydd mudiant y dŵr yn peri i dyrbinau (o Dde Corea) gynhyrchu trydan ar raddfa fydd yn gyfraniad sylweddol iawn at allu'r Grid Cenedlaethol i sicrhau bod cartrefi a diwydiannau yn cael eu digoni.

Cawsom gipolwg ar ddata ar bob agwedd o'r fenter gan gynnwys maintioli'r adeiladwaith a chyfleoedd hamdden pan fydd y cyfan yn barod at wasanaeth a defnydd.

Gellir cael syniad o'r bwriad trwy fynd at http:www.tidallagoonswanseabay.com neu http:www.tidallagoonswanseabay.com/h/the-project/film/107/ *Dr Neville Evans*





### Posau'r Plant

gan

Mary Jones

Allwch chi ddod o hyd i'r NAW gwahaniaeth rhwng y 2 ddau lun?

Mae'r atebion i'w cael ar dudalen 14

# Ysgol Ifor Bach

## Clecs Ifor!



## Cofio Tanchwa Senghennydd Hydref 14eg, 1913



Mae gwasanaeth goffa Tanchwa Senghenydd yn achlysur bwysig iawn i ni fel ysgol. Adeg yma'r flwyddyn, mae'r ysgol a'i chymuned yn treulio rhai wythnosau yn dwyn i gof hanes diwrnod y drychineb ym mhwll glo'r Universal, lle lladdwyd 439 o lowyr. Bu plant Blwyddyn 6 eleni yn talu teyrnged ar ran yr ysgol trwy ganu emyn 'Pump y bore yn Senghennydd' gan Myrddin ap Dafydd.

## Etholiadau'r Cyngor Ysgol

Wedi wythnosau o ganfasio ac apelio at holl blant a rhieni'r ysgol, mae aelodau newydd y cyngor ysgol wedi'u cyhoeddi. Edrychwn ymlaen yn fawr at dderbyn eu harweiniad yn ystod y flwyddyn.





## Gweithgareddau Rhyngwladol

Mae'r plant (a'r staff) wedi llwyr gyffroi gyda rhaglen 'Cwpan y Byd'. Yn ystod y mis diwethaf, rydym wedi teithio ac ymchwilio i ddiwylliant, traddodiadau, bwydydd, dawnsfeydd a cherddoriaeth Awstralia, De Affrig, Seland Newydd, yr Iwerddon, Ffrainc, yr Ariannin a Lloegr. Byddwn yn cwpla thema 'Cwpan y Byd' trwy gynnal cystadleuaeth 'tag rygbi i'r teulu' cyn ein seremoni gloi wythnos nesaf. Mae plant B5 yn astudio Awstralia ac yn ffyddiog iawn y byddent yn ennill y Cwpan...........ond mae plant B3 (Cymru) yn anghytuno'n ffyrnig!!!!!









## Gŵyl gelfyddydau a chofio Tanchwa Senghenydd Cwm yr Aber

Cawsom wythnos fendigedig wythnos ddiwethaf…….llawn cyffro, llwyddiant a llawer iawn o hwyl…….!! Bu plant B1-6 yn cystadlu'n frwd trwy lunio darnau o farddoniaeth, storiau byrion, creu gwaith celf, tecstiliau a gwaith modelu gwych. Testun eu cynnyrch oedd "Fy Nghwm".

Bu holl ysgolion a phentrefwyr Cwm yr Aber a thu hwnt yn cystadlu yn yr Ŵyl flynyddol hon a braf oedd gweld cymaint o blant ein hysgol yn cipio'r prif wobrau ymhob cystadleuaeth. Llongyfarchiadau cynnes i'r canlynol:

* Llywelyn Greenhaf, B6
* Ellyse Gutierrez B6
* Ellie Jones B5
* Nika Kolly B6
* Sam Lintern B3
* Lilianna Davey B3
* Seren Roylance Bl3
* Adam Webb B5
* Arthur Painter B4
* Riley Denton B2
* Luke Moverley B5

## Dyma enghrefftiau o gerddi'r ysgol:

Fy Nghwm
Nant yn igam-ogamu lawr y ffrwd.
Gwynt yn saethu yn syth trwy'r goedwig.
Blodau yn canu fel tylwyth teg.
Coed yn codi llaw i'r cymylau.

Rhesi o dai yn filwyr yn aros am ryfel y gwynt.
Capel Beulah yw dyn post ein nefoedd.
Hen wragedd o ddefaid colledig yn crwydro.
Golau'r stryd yn pelydru.
Fel hauliau ar draws y cwm.

Gwelaf babis coch yn fôr o waed
wrth risiau'r gofeb.
Aroglaf dractor yn torri glaswellt,
yn lledaenu'r arogl
trwy ffenest yr ysgol.
Clywaf geir yn rhuo ar daith ddyddiol.

A'r plant
llawn egni
yn ein parciau
yn rhoi gobaith
i'r cwm.

Ellyse Guiterrez Blwyddyn 6 Ysgol Ifor Bach



**Senghennydd**

Ffrwydrad anferthol! Mwg dros y lle i gyd! Meibion yn cael eu colli! Brodyr yn cael eu colli! Teuluoedd yn tyfu yn llai ac yn llai ac un llai. Druan âphawb yn Senghennydd.

Rydw i'n aros ac yn aros yn aros am newyddion o'r pwll. Ble mae fy ngŵr? Ydy e wedi goroesi? Paid a chrio babi bach. Gobeithio bydd Dadi wedi byw.

Edrychwch ar y bobl ddi-galon . Gwrandewch ar y bobl yn crio ac yn crio ac yn crio yn ofnadwy. Edrychwch ar y bobl drist yn gorymdeithio trwy Senghennydd. Mae pawb yn gwisgo du. Ceffyl sy'n tynnu'r cyrff o'r pwll. Band trist sydd yn chwarae – does neb yn dawnsio. Mae'r bobl dywyll yn sefyll yn stond yn syllu ar y band.

Seren Roylance Bl 3 Ysgol Ifor Bach

# Canlyniadau Eisteddfod y Cymoedd 2015

| Cystadleuaeth | 1af | 2il | 3ydd |
|---|---|---|---|
| Llefaru Blwyddyn 5-6 | Megan James | Ellie Pritchard | Ellie Rose |
| Unawd hyd at flwyddyn 4 | Scarlett Humphreys | Awen Davies | Lexie Hughes |
| Ffotograffiaeth | Lynda Ganatsiou | Lynda Ganatsiou | Lynda Ganatsiou |
| Dawns Unigol | Shania Johnson | Liliana Davey | N/A |
| Unawd Offerynnol hyd at flwyddyn 6 | Gethin Hyams Watkins | Elliot Bell | Sioned Thomas / Jasper Bell |
| Llefaru hyd at flwyddyn 4 | Tegan Skidmore | Evie Pritchard | N/A |
| Côr Cynradd | Ysgol Ifor Bach | Ysgol y Lawnt | Ysgol Ynyswen |
| Parti Dawns | Grwp Dawnsio Gwerin Ifor Bach | Seren a Emily Williams | N/A |
| Unawd Blwyddyn 5 – 6 | Seren Williams | Millie Evans | Holly Powell |
| Seremoni Cadeirio | Lowri Pitcher | N/A | N/A |
| Beirniadaeth Llenyddol Cynradd | Ellyse Guiterrez | Seren Roylance | N/A |
| Beirniadaeth Llenyddol Uwchradd | Lowri Pitcher | Lucy Percival | Gruffudd Gwynn |
| Beirniadaeth Llenyddol Ail iaith uwchradd | N/A | N/A | N/A |
| Deuawd Ieuenctid | N/A | N/A | N/A |
| Llefaru Unigol i ddysgwyr oed cynradd | N/A | N/A | N/A |
| Ensemble Offerynnol | Jasper ac Elliot Bell | N/A | N/A |
| Unawd Offerynnol Blwyddyn 7 – 9 | Megan Thomas | Manon Lewis | Anwen Teagle |
| Erthygl Papur Bro | Ben Jones | Ben Jones | Ben Jones |
| Côr Ieuenctid | N/A | N/A | |
| Llefaru Blwyddyn 7 – 9 | William Dewi Lewis / Eilir Teagle | | Arwen Teagle |
| Llefaru Blwyddyn 10-13 | N/A | | |
| Unawd Blwyddyn 7 – 9 | N/A | | |
| Darn Creadigol - ail iaith | N/A | | |
| Unawd Blwyddyn 10 – 13 | Celyn Hughes | | |
| Beirniadaeth yr englyn: "Patagonia" | Anwen Pierce | Martyn Huws | John Lloyd |
| Beirniadaeth Cerdd "Draw dros y don" | Denzil John | Martyn Huws | Martyn Huws |
| Unawd Offerynnol blwyddyn 10+ | Aisha Palmer | N/A | N/A |
| Eitem i barti ail iaith | N/A | N/A | N/A |
| Unawd Sioe Gerdd | N/A | N/A | N/A |
| Beirniadaeth y Limerig | Parchedig K MLintern | Dewi Lewis | R Alun Evans |
| Beirniadaeth Llinell goll y noson | | | |
| Côr neu Barti Agored | Cor Caerdydd | N/A | N/A |

# Enillwyr Eisteddfod y Cymoedd 2015

*Enillydd ar y gerdd heb fod dros 50 llinell oedd y Parchedig Denzil John.*

**Draw dros y don…**
Cofio'r miloedd a fu farw yn Iwerddon
adeg y pla tatws 1845-50

Yng nghrombil y Dunbroadie, gwasgwyd lleng
o dlodion gwlad a gladdodd meirwon bro,
roedd mwy na phla y tatws gan y wreng
i'w herio wrth ddaearu yn y gro.
Pan mynnai'r bonedd hawlio nôl eu tir
a senedd Lloegr gredu'r twyll a'r brad;
daearwyd parch ac ildiwyd gwerth pob gwir
heb boeni am y tlodion di-ystâd.
'Ewch' medd y bonedd 'i Newfoundland,
mwynhewch yn Efrog fro eich newydd fyd.
Hwyliwch o New Ross, cewch ddillad crand
a phrofi cyffro byw mewn mannau clyd.'
Draw dros y don, roedd gobaith o gael gwaith
a'r pris oedd colli bro a cholli iaith.

*Un o'r llongau cludo pobl i'r Amerig ac i Ganada oedd y Dunbroadie. Bu farw miloedd o Wyddelod cyn i'r posibilrwydd o fudo ddod. Yn aml, talodd y perchnogion tir i'w tenantiaid fynd. Adeiladwyd llong ar ffurf y Dunbroadie sydd i'w gweld yn New Ross nawr.*



*Cadair yr Eisteddfod*



Enillydd Cadair Eisteddfod y Cymoedd eleni oedd Lowri Pitcher, Ysgol Gyfun Cwm Rhymni. Cododd i frig cystadleuaeth a gafodd glod mawr gan y beirniad.

Daeth Lucy Percival yn ail iddi a Gruffydd Gwyn yn drydydd. Derbyniodd pedwar arall ganmoliaeth uchel gan y beirniaid.

*Enillydd yr Englyn oedd Anwen Pierce*

Patagonia
Eu her trwy oerder y fordaith – am oes
ar Fimosa'u gobaith
a'u poen, oedd codi o'r paith
anial eu Cymru uniaith.
*Hywel*

*Enillydd y limerig oedd K.M.Lintern*

Aeth Gwenda i'r gawod un noson –
A Huw, i ehangu'i orwelion,
Fe'i golchodd hi, do –
Yn lân yr ail dro:
Seboni yw un o'i orchestion,
*Trochion*

*Diolch i Alan a Mair Gwynant am ddarparu rhestr gyflawn enillwyr Eisteddfod eleni yn ogystal â'r lluniau sydd yma ac ar glawr blaen y papur. Hefyd, i Gwilym ac Eirlys Thomas am gopïau o waith cartref yr enillwyr. Mae gwaith buddugol yr adran gynradd ar dudalen 11 .*
*Mwy o gynnyrch cartref yr Eisteddfod yn rhifyn nesaf "Cwmni".*

## Y Dechreuadau - Dr Elin Jones

Ble mae hanes yn dechrau? Yr ateb fel rheol yw 'gyda'r cofnod ysgrifenedig cyntaf', a dyna'r rheswm pam roedd yr hen werslyfrau hanes yn cysegru eu penodau cyntaf i bobl y dwyrain canol.

Er eu bod mor bell i ffwrdd ohonon ni, yn ddaearyddol ac yn hanesyddol, eto i gyd yn eu tabledi clai â'u patrymau cwnifform, ac yn eu heirogliffeg mai canfod hanes ysgrifenedig cynharaf dynol ryw.

Ond roedd ffordd wahanol gan drigolion cyntaf y cwm hwn o gofnodi eu hanes. Ei ysgrifennu ar y tirwedd oeddyn nhw. Nid yw'r ysgrifen hon yn hawdd ei dehongli, chwaith, ond mae'n gofnod o fywydau pobl yn yr ardal hon bedair mil o flynyddoedd yn ôl. Mae hanes cynharaf trigolion ein Cwm Ni wedi ei ysgrifennu ar rosydd Comin Gelligaer, yn y pridd a'r cerrig a godwyd dros weddillion y meirw.

Yn ôl rhai archaeolegwyr hefyd, ardal sanctaidd oedd y tir o gwmpas Carn Bugail, y pwynt uchaf ar y comin. Bedd rhywun pwysig iawn yng ngolwg trigolion yr ardal hon oedd Carn Bugail. Does dim i'w weld yn y bedd ei hun: fe'i ysbeiliwyd ganrifoedd yn ôl. Claddwyd gweddillion nifer mawr o bobl mewn twmpathau bach o gwmpas beddrod mawr Carn Bugail eu hun, pob un ohonynt efallai yn perthyn i'r person a gladdwyd ar y copa. Mae olion eraill yn y tirwedd yn awgrymu i drigolion ein Cwm Ni ystyried y man uchel hwn yn lle cysegredig.




Nid y bobl gynnar hyn oedd yr unig rai i barchu'r uchelfannau. Ar lethr y bryn, i'r gogledd o Garn Bugail ei hun, mae adfeilion bedd arall o Oes yr Efydd. Yng nghanol yr adfeilion hyn saif maen hir, a ar hon. Carreg o gyfnod llawer diweddarach yw hon, ac mae olion ysgrifen arni. Dyma'r darn hynaf o ysgrifen yn ein hardal ni, ac er iddo gael ei ddifwyno, mae modd i'r craff ganfod y llythrennau ROIHI.

Bedd arall sydd yma, bedd rhywun o'r enw NEFROIHI, yn ôl yr hanesydd Frank Olding, sy'n arbenigo yn hanes cymoedd de-ddwyrain Cymru.

Enw Gwyddelig yw hwn, sy'n golygu rhywbeth fel 'amddiffynnydd y grug', ac mae'n perthyn i'r cyfnod hwnnw, ryw fil a hanner o flynyddoedd yn ôl, pan oedd pobl o'r Iwerddon wedi sefydlu teyrnas yn ardal Bannau Brycheiniog. Er bod bedd Nefroihi yn perthyn i gyfnod Cristnogol, nid yw'n glir ai bedd Cristion oedd hwn. Ond mae ail-ddefnyddio bedd o'r cyfnod cynnar yn awgrymu i archaeolegwyr fod Nefroihi a'i bobl yn dal i ystyried uchelfannau Comin Gelligaer a beddau Oes yr Efydd yn ardal sanctaidd, fil a hanner o flynyddoedd wedi i'r galarwyr a gododd Carn Bugail fynd adre o'r bedd hwnnw.

Os taw Cristion oedd Nefroihi, yna dyma dystiolaeth i barhad y syniad o sancteiddrwydd yr uchelfannau mewn i'r cyfnod Cristnogol. Awgryma hefyd fod hen gredoau'n Cwm Ni'n cydfyw gyda'r ffydd newydd a ddaeth gyda'r Rhufeiniaid – a hynny am ganrifoedd lawer. Ac wrth i ni edrych i fyny, gwelwn taw ar y bryniau mae hen eglwysi'r fro i gyd. O Fynyddislwyn draw i Eglwys Ilan, o Gelligaer i Fedwellte, rhaid i ni godi ein llygaid i'r mynyddoedd o hyd i weld ceyrydd ein ffydd.



### Posau'r Plant

Dyma'r NAW gwahaniaeth rhwng y ddau lun a welir ar dudalen 9.

Gawsoch chi nhw i gyd?

## **Colofn y Dysgwyr** gyda Ann Lewis

Helo bawb. Gobeithio eich bod chi wedi gwneud eich gwaith cartref. Dyma'r brawddegau cywir :




Rwyt ti wedi colli **dy** sbectol.

Mae'r **ferch** yn byw yn Aberhonddu.

Roedd tri **cheffyl** yn y cae.

Mae'r prifathro yn **gas** iawn wrth y plant.

Rydw i wedi brifo fy **nghoes.**

Wyt ti'n mwynhau mynd i'r Eisteddfod? **Ydw!**

Hoffet ti **ddod** i'r sinema gyda fi?

Dwedodd e **bod** y gêm rygbi yn wych.

Pa **wlad** sy'n mynd i ennill Cwpan y Byd?

Mae e'n **adnabod** fy mrawd a fy nhad

Y tro yma mae un o'r Pwyllgor yn mynd i ddweud stori wrthoch chi yn ei eiriau ei hun. Dyma fe:

Helo ddarllenwyr, Cadwgan ap Seisyll ydw i. Rydych chi wedi clywed amdana i siwr o fod – rwy'n aelod o'r PWYLLGOR, y pwyllgor sy'n *trefnu* rheolau'r iaith Gymraeg. Fy ngwaith i yw helpu'r Cadeirydd ac mae e'n *arwr* mawr i fi. Pam? Wel mae e'n ddyn *galluog* a phwysig iawn ac hefyd mae e'n *garedig* iawn i fi. Dydw i ddim yn alluog iawn, dydw i ddim yn *olygus* ac rydw i *braidd yn swil*. Rydw i'n gweithio yn y llyfrgell ac un diwrnod daeth y Cadeirydd i mewn a *benthyg pentwr mawr* o lyfrau. *Cynigiais* i ei helpu i'w cario nhw i'r car ac ar ôl sgwrs fach fe ofynnodd e i fi ddod yn aelod o'r Pwyllgor. *Dyna ddiwrnod hapusaf fy mywyd!*

Roeddwn i wrth fy modd yn y pwyllgor yn gwrando ar bob gair roedd y Cadeirydd yn ei ddweud. Mae e mor glyfar ac mor *hyderus*. Roedd pobl eraill yno wrth gwrs ond doedden nhw ddim yn bwysig. Sylwais i ar fenyw fach mewn het Gymreig a siôl ac ar ddiwedd y *cyfarfod* fe ddwedodd y Cadeirydd wrtha i mai hi oedd ei wraig. Wel, meddyliais i, dyna fenyw lwcus yn cael *byw a bod* gyda'r Cadeirydd! Doedd hi ddim yn edrych yn hapus iawn ac roeddwn i'n *methu deall* pam………..( *i'w barhau)*

*trefnu : organise* *arwr : hero* *galluog : able* *caredig : kind*


*golygus : good-looking* *braidd yn swil : rather shy* *benthyg : borrow*

*pentwr mawr : a big pile* *cynigiais : I offered* *hyderus : confident*

*Dyna ddiwrnod hapusaf fy mywyd : That was the happiest day of my life*

*cyfarfod : meeting* *byw a bod : spend all her time* *methu deall : couldn't understand*

# Colofn Dafydd Islwyn



Dwy neu dair blynedd yn ôl prynais, yn siop lyfrau ail-law Llyfrau Ystwyth, Aberystwyth, Ganeuon Volander Jones, Llanymddyfri, yr ail argraffiad. Prynais y gyfrol oherwydd cyhoeddwyd ynddi englyn y Parchedig John 'Volander' Jones i Gaerffili a'i chaws,

Ei chaws bras yw achos ei bri – o'i chaws
Daw ei chysur iddi;
Y caws hyn yw'n henllyn ni,
Ffolwn ar gaws Caerffili.

Cyhoeddwyd ynddi hefyd nifer o englynion a'u cefndir ydy prif seremonïau'r Genedlaethol. Er enghraifft, Y Coroni yn Llundain yn 1909. Coronwyd W. J. Gruffydd, â chysylltiad ag Abercarn. Englyn arall oedd Y Cadeirio yn Aberystwyth yn 1916,

Trowyd y fflam ar Ystrad Fflur - i'w gaddug
Gael datguddiad eglur;
Enaid y bardd yn ffrwd bur
A ddylifodd i'w lafur.

Cadeiriwyd Y Parchedig John Ellis Williams, gweinidog yr Annibynwyr, Pendref, Bangor. Un o'r beirniaid oedd Y Parchedig J. J. Williams a fu'n weinidog yng Nghapel yr Annibynwyr ym Moreia, Rhymni ar ddechrau'r hen ganrif. Roedd ef yn gryf o blaid cadeirio Hedd Wyn ond roedd y ddau feirniad arall o blaid J. Ellis Williams! Petai Hedd Wyn wedi ennill yn Aberystwyth a fuasai wedi cystadlu'r flwyddyn ddilynol?

Yn y Genedlaethol yn Aberystwyth y cynhaliwyd y Gymanfa Ganu gyntaf yn hanes y Genedlaethol. Roedd bys David Lloyd George yn ddwfn yn y briwes drefnu! Roedd gan Y Parchedig J. Volander Jones barch mawr at y gwleidydd dylanwadol. Cyflwynodd y gyfrol o'i gerddi iddo fel arwydd o'i barch diffuant tuag ato, ac edmygedd o'i alluoedd disglair ac o'i ffyddlondeb diflino a di-dor i'w genedl ac i'w wlad!

Nos Sul y 19eg o Orffennaf eleni cafwyd sgwrs am Volander ar raglen Dei Tomos. Dysgais mai brodor o'r Gwter Fawr oedd ef ac mai ei ofalaeth gyntaf fel gweinidog gyda'r Annibynwyr oedd yn Nhredegar Newydd. Tra roedd yng Nghwm Syfiog yr urddwyd ef â'r enw barddol 'Volander'. Dysgais hefyd iddo weithio nifer o ganeuon, ac mae nifer fawr ohonynt yn y gyfrol.

Cyhoeddwyd yr ail argraffiad Ddydd Gŵyl Ddewi 1920, yn clodfori'r Rhyfel Mawr (1914-1918). Dan deitl pob cân rhyfel awgrymwyd ar ba fesur y dylid ei chanu. Er enghraifft, dylid canu 'Rhyfel ar Ben' ar fesur 'Mae Robin yn Swil'. Dyma'r pennill cyntaf o'r saith:

Does dim ond llawenydd yn awr ar bob grudd
O Fesopotamia bob cam i Gaerdydd
Mae pob un yn dawnsio o Ffrainc i'r Groes-wen
Oherwydd bod mwstwr y rhyfel ar ben
A dyblwyd y cwpled olaf ym mhob pennill.

Does rhyfedd yn y byd nad oes llinell o waith Volander Jones wedi aros ar gof gwlad. Englynwr rhwydd oedd ef yn derbyn y trawiad cyntaf.

Tybed a oedd Myfyr Môn yn gwybod am y llinell 'Ffolwn ar gaws Caerffili' cyn iddo weithio'i englyn ysgafn yn 1950?

## Sul y Cofio

Bydd llawer un yn sefyll wrth gofgolofn y pentref neu'r ddinas ac efallai mewn llecyn distaw, tawel yn cofio'r gorffennol. Mae'r cofio yn felltith i rai ac yn fendith i eraill. Sut bynnag fel yna yn gwnaed â chof gennym. Ni chredaf am eiliad y dymunai unrhyw un fod heb y gallu i gofio. Tennyson ddywedodd, "Y goron yw cofio dyddiau dedwyddach ond ni fuaswn heb fy atgofion, boed iddynt fod yn ddedwydd neu ddiflas". Fel yr heneiddiwn mae bywyd yn fater o atgofion, onid yw?

Credaf ei bod yn bwysig meithrin coffadwriaeth gan fod unrhyw genhedlaeth heb orffennol yn sicr o fod heb wreiddiau yn y presennol.

Mae marwolaeth yn brifo ac yn galw am ddealltwriaeth, teimladrwydd, cynhaliaeth ac agosatrwydd ynghyd â chydymdeimlad. Yr unig beth a ddywedaf yn ddiffuant ben draw yw troi at Un sydd bob amser, "Wrth law o hyd i wrando cri."

Cofiaf William Tomos, Caemawr, hen löwr mewn Seiat yng Nghalfaria, Porth, ar ôl colli ei fab Twm yn gofyn, "Tybed oedd bywyd Twm bach yn werth yr aberth?" Cododd Dafydd Lawrence, hen arwr o frwydr fawr y Somme, "William - y cwestiwn ddylem ofyn ydyw: a ydym ni yn werth yr aberth wnaed drosom ni?"

*Elwyn Parry*

## COLEG GWENT: Ysgolion Haf

30 awr ar 8 lefel Yn cynnwys 14awr o wersi anffurfiol
01495 333710

| Lleoliad | Diwrnod | Amser | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| Campws Pontypŵl | Sad-Sul | 8.45-17.00 | 21-22/11/15 |
| Campws Pontypŵl | Sad-Sul | 8.45-17.00 | 05-06/03/16 |
| Campws Pontypŵl | Sad-Sul | 8.45-17.00 | 14-15/05/16 |
| Campws Pontypŵl | Llun- Gwen | 8.45-17.00 | 25-29/05/16 |
| Llanbed | Gwen-Sul | 9.00-17.00 | 01-03/07/16 |

Côr Cwm Ni

**YMARFER**

♫

Pob nos Fawrth
**7:00**
Ysgol Trelyn
(Pengam)







Gwahoddir chi'n gynnes i:

## Gyfarfod Cyffredinol Menter Iaith Sir Caerffili

**6:00pm (Bwffe i ddechrau)**
**Nos Lun, Tachwedd 2ail**
**Canolfan y Glowyr, 1 Beech Tree View,**
**Pentre'r Beeches, Caerffili, CF83 1DX**

Fe fydd y Cyfarfod Cyffredinol yn gyfle i glywed am ein gwasanaethau diweddaraf a chael cyfle i drafod datblygiad gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn Sir Caerffili. Rydym yn ffodus iawn i fod yn y lleoliad cymunedol newydd ysblennydd hwn ac fe fydd cyfle i edrych o gwmpas y cyfleusterau newydd yn Y Glowyr, sef Ysbyty'r Glowyr gynt.

### I'ch Dyddiadur

**5ed o Ragfyr** 10.00 Ffair Nadolig y Fenter yn Llancaiach Fawr .
**22ain o Ragfyr** 7:00 Cyngerdd Corawl gyda Osian R:owlands, Castell Caerffili
Cynhelir Sadyrnau Siarad Menter Iaith Caerffili ddydd Sadwrn olaf pob mis

## Hanes Cwm Ni

Nos Iau, Tachwedd 5ed 2015

Y Parch Ddr R.Alun Evans

**"Steddfota"**

Clwb Rygbi Penallta, Ystad Mynach

7:00

Ar gyfer Cymry Cymraeg a
Dysgwyr lefelau Uwch/Hyfedredd

*!!!!Gwasanaeth yn y Gymraeg!!!!*

**TACSI GORSAF CAERFFILI**



Cysylltwch â KEITH ar
02922 362364 neu 07914 355195
facebook.com/tacsigorsafcaerffili
**Defnyddiwch Gardiau Debyd/Credyd**

**COLEG GWENT : Ysgolion Undydd.**

Pob Cwrs am 5 awr ar ddydd Sadwrn

| **Lleoliad** | **Dyddiad** | **Ffôn** |
|---|---|---|
| Canolfan Abertyleri | 07/11/15 | 01495355895 |
| Campws Casnewydd | 05/12/15 | 01495333710 |
| Gorsaf Bŵer Cwmbrân | 09/01/16 | 01633647647 |
| Ysgol Cwm Rhymni | 06/02/16 | 01633612245 |
| Canolfan Trefynwy | 27/02/16 | 01600712822 |
| Canolfan GlynEbwy | 16/04/16 | 01495455300 |
| Gorsaf Bŵer Cwmbrân | 21/05/16 | 01633647647 |

## Clwb Llyfrau "Cwm*ni*"

Caffi'r Hen Lyfrgell

Mynedfa Parc Morgan Jones,
Caerffili

2 o'r gloch

Dydd Llun 7fed Rhagfyr

Croeso cynnes i Gymry Cymraeg
a dysgwyr profiadol.
Manylion gan Jan:
JanPenney@aol.com




**Clwb Cerdded**

Pob Dydd Mercher 10 -12



01443 802832
Ymunwch â'r clwb cerdded. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Morgan Roberts - Swyddog Prosiect Llais Menter Caerffili:
morganroberts@mentercaerffili.cymru

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach

**Gwasanaeth Adfent**

Carolau, darlleniadau, gweddiau,
lluniaeth
Copiau plant ac oedolion
o fersiwn printiedig
newydd Beibl.net!
**2.30pm, pnawn Sul 6ed Rhagfyr**
*Croeso i Bawb*

Gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg!!

Bargoed Chiropractic

Cysylltwch: 01443879396

Eisteddfod y Cymoedd
a
Cwmni Cwm Ni

# "Datrys y Dirgelwch"



Tafarn Wetherspoon,Caerffili

**7:30**
**Nos Fercher,**
**4ydd o Dachwedd**

**£10**
_(yn cynnwys cyw iâr, diod ac adloniant)
Rhowch wybod mewn da bryd eich bod yn dod i

**Ben Jones**
**07891916046    02920862428**
**Benamary2000@yahoo.co.uk**

**Merched y Wawr Cwm Rhymni**
Nos Fercher 18 Tachwedd

**7.30**

Festri Bethel, Heol Nantgarw, Caerffili

## Coginio

**Eluned Davies-Scott**

Cysylltwch â Marian Fairclough:
faircloughme@aol.com neu
02920 885151


**Merched y Wawr Cwm Rhymni**
Nos Fercher 16 Rhagfyr

**7.30**

Clwb Rygbi Caerffili, Parc Virginia,

**NOSON  HYWEL GWYNFRYN**
(gyda Cwm*ni* a Menter Iaith Caerffili)

Cysylltwch â Marian Fairclough:
faircloughme@aol.com neu
02920 885151





## ARTIST y MIS

Bydd ein darllenwyr yn cofio llun hyfryd y Robin Goch gan Myrna Roberts adeg y Nadolig llynedd. Hi hefyd sy'n gyfrifol am y llun uchod ac mae hyn yn gyfle i ni longyfarch dau o'n darllenwyr am ennill gwobrau yng Ngŵyl Cwm yr Aber mis diwethaf. Daeth Myrna yn ail yn y gystadleuaeth gelf i oedolion, er nad am y llun hwn. A daeth Golygydd Lluniau Cwm*ni*, Mary Jones yn drydydd yn yr un gystadleuaeth.

Grŵp Arlunio Dydd Gwener

**ARDDANGOSFA**

**Llyfrgell Caerffili**

9fed o Hydref – 19eg o Dachwedd

*Dewch i weld neu i brynu*

Grŵp Arlunio Dydd Gwener

**ARDDANGOSFA**

**Llyfrgell Bedwas**

23ain o Dachwedd tan y Nadolig

*Dewch i weld neu i brynu*